

Cofrestru ar gyfer gwersi cerddoriaeth ym mis Medi 2020

Annwyl Riant/Gofalwr,

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth yn ystod y tymor diwethaf a gobeithio bod y rhai ohonoch chi sydd wedi cofrestru i dderbyn ein cynnwys wedi mwynhau ein sesiynau ar-lein. Rydyn ni wedi cael adborth gwych gennych chi ac wedi cael llawer o berfformiadau hyfryd gan ein cerddorion ifanc.

I hwyluso dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel i bob dysgwr, **dim ond ar-lein fydd Gwasanaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd yn cynnig gwersi offerynnol a gwersi canu rhwng Medi 26^{ain} 2020 a Nadolig 2020 ar gyfer y dysgwyr presennol ac unrhyw ddysgwyr newydd.** Byddwn yn cynnig gwersi unigol o 15, 20 a 30 munud ar gost o £6, £8 a £12 yn eu trefn. Bydd y rhain ar gael i'w prynu mewn bloc o ddeg gwers.

Hyd y Wers	15 munud	20 munud	30 munud
Pris gwersi unigol	£6	£8	£12
Cost archebu 10 gwersi	£60	£80	£120

Rydyn ni'n parhau i gynnig gwersi llais a'r ystod lawn o offerynnau cerddorol, ac mae gennym ni stoc gyfyngedig o'r offerynnau canlynol ar gael i ddysgwyr newydd.

Clarinét

Corned

Ffidil

Mae taliad cynnal a chadw o £25 y flwyddyn yn daladwy cyn gellir casglu offeryn o Theatr Clwyd. Hefyd rydyn ni'n gweithredu Cynllun Prynu Offeryn Gyda Chymorth sy'n galluogi teuluoedd i brynu offeryn ar gyfer gwersi yn yr ysgol (sef y sesiynau rhithiol) heb orfod talu TAW. Gall hyn, ynghyd â'n perthynas ragorol gydag amrywiaeth o gyflenwyr, arwain at arbedion sylweddol ar bob model, o ddechreuwr i arbenigwr.

Hoffem i chi gofrestru eich diddordeb yn y gwersi yma drwy ddilyn y ddolen isod a llenwi'r arolwg google byr. Byddwn yn cydnabod derbyn y manylion hyn ac wedyn byddwn yn mynd ati i drefnu amseroedd y gwersi yn ystod mis Awst ar gyfer dechrau ym mis Medi – ac erbyn hynny dylech ddeall ymrwymadau amser eich plentyn yn well, rhwng yr ysgol a'r cartref. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn cwblhau'r arolwg erbyn Gorffennaf 24^{ain} 2020.

<https://forms.gle/YHkqoBLVuuWryhiT8>

Os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau, cofiwch gysylltu â ni ar musicservice@theatrclwyd.com.

Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at glywed gennych chi ac at barhau i gynnig cyfle i bobl ifanc Sir y Fflint elwa o'r holl fanteision sydd i'w cael o ddysgu cerddoriaeth.

Dymuniadau Gorau,

Aled Marshman

Aled Tudor Marshman, Cyfarwyddwr Cerddoriaeth, Theatr Clwyd